

## **CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF**

**COFNODION** o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 24 Gorffennaf, 2017 am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL** Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

### **42 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mrs W Owen, (Llanbedrgoch).

### **43 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.**

Datganodd Mr K F Griffiths ddiddordeb yn eitem (2017/18 – 47) ac nid oedd yn bresennol yn y drafodaeth na'r penderfyniad ar y mater "Maes Parcio Waun Dirion".

### **44 COFNODION.**

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain o Fehefin a'r 5ed o Orffennaf 2017.

## **LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.**

### **45 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.**

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

## **GOHEBIAETH**

### **46 YSGOL GORONWY OWEN, BENLLECH.**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr diolch yn dilyn rhodd ariannol gan y Cyngor Cymuned.

### **47 MAES PARCIO WAUN DIRION.**

Cyflwynwyd – llythyr gan Gyngor Sir Ynys Mon yn tynnu sylw'r aelodau at honiad fod cerbyd wedi ei adael yn barhaol ym Maes Parcio Waun Dirion sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned. Mae gan y

Cyngor Sir bwerau o dan “ Ddeddf cael gwared ar wastraff (mwynderau) 1978 (fel y’i diwygiwyd) a Deddf Rheoliadau Traffig ar y Ffyrdd 1984” i ddelio gyda cherbydau sydd wedi cael eu gadael ar dir cyhoeddus a thir preifat os cant ganiatad i wneud hynny.

Eglurwyd fod y Clerc wedi cael galwad ffon yn dilyn mynd a Rhaglen mis Gorffennaf i’r aelodau gan Mr Kevin Griffiths un o aelodau’r Cyngor Cymuned yn datgan mai ef oedd perchennog y cerbyd honedig ac ei fod wedi ei yswirio ac yn gyfreithiol i fod ar y ffordd fawr. Gofynwyd iddo symud y cerbyd yn dilyn cyngor gan Swyddog Monitro, Pwyllgor Safonau’r Cyngor Sir. Fodd bynnag nid oedd y cerbyd wedi cael ei symud cyn dydd Cyfarfod y Cyngor Cymuned ar 24 Gorffennaf 2017.

**PENDERFYNWYD – gwahardd parcio dros nos yn y Maes Parcio drwy osod arwydd perthnasol.**

## **TALIADAU A CHYFRIFON.**

### **48 BILIAU**

**PENDERFYNWYD – talu’r biliau a ganlyn :-**

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Photostatic	Llungopio	£33-44
G E Pritchard	Ad-daliad Timpson, Plac Coffa	£25-00
G E Pritchard	Ad-daliad Norton Symantec	£79-99
MacVenture Play Co Ltd	Atgyweiriadau	£756-00
Playsafety Ltd	Archwiliad blynyddol	£88-20

### **49 CYFRIFON**

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yng Ngorffennaf 2017.

### **50 CYLLIDEB Y CYNGOR**

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a’i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd Gorffennaf 2017.

## **MATERION CYFFREDINOL**

### **51 CO-OP BENLLECH – SIOP FWYD NEWYDD.**

Cyflwynwyd – derbyniwyd llythyr gan y Co-op Estates yn cyhoeddi eu bwriad i adeiladu siop fwyd newydd ym Menllech. Roedd y llythyr yn gofyn am farn ac unrhyw sylwadau pellach yr hoffai yr aelodau ei wneud cyn i'r mudiad cydweithredol wneud cais cynllunio llawn i Adran Cynllunio'r Cyngor Sir yn ystod mis Awst.

Y bwriad ydyw adeladu'r siop newydd ar safle presennol yr hen Feddygfa fel cam cyntaf gyda'r siop bresennol yn parhau i fasnachu hyd bydd y siop newydd yn agor. I ddilyn bydd y siop bresennol yn cael ei chwalu a bydd y safle yn cael ei wedd newid i faes parcio i ddeuddeg o gerbydau, fydd yn cynnwys un safle i'r anabl. Yn ogystal bydd man cadw beiciau.

**PENDERFYNWYD – cytuno yn gyffredinol gyda'r bwriad a gwneud yr awgrymiadau canlynol :-**

- 1 gofyn am sicrwydd y bydd digon o ofod i yrrwyr ddod i mewn ac allan o'r llefydd parcio bwriedig. Hefyd awgrymu dau le parcio i'r anabl.**
- 2 Awgrymu ehangu'r gofod presennol fel medr loriau nwyddau ddod yn nes i'r siop ac nid parcio ar yr A5025 fel sydd yn digwydd yn bresennol.**
- 3 Ceisio nawdd ariannol tuag at gynllun adfywio'r pentref gan y mudiad cydweithredol.**

### **52 CAER BERLLAN – ADRODDIAD ARCHWILIAD DIOGELWCH BLYNYDDOL.**

Eglurodd y Clerc fod yr Archwiliad blynyddol wedi ei gyflawni a chafwyd canlyniad categori risg canolig oherwydd y fandaliaeth a wnaed i'r safle diogelwch o gwmpas y cylchdro. Yn anffodus cafodd yr Archwiliad Diogelwch ei wneud wythnos cyn i'r atgyweiriadau i'r cylchdro.

Roedd rhai agweddau ychwanegol angen sylw ond nid ar frys, er enghraifft y safleoedd diogelwch o gwmpas rhai o'r atyniadau yn gwisgo yn enwedig o gwmpas yr ymylon. Mae ffens bren o gwmpas y man chwarae hefyd angen man atgyweiriadau a'i phaentio.

Awgrymwyd edrych ar gynllun i wneud y gwaith yma ym mlwyddyn ariannol 2018/2019.

**53 LLYFRGELL BENLLECH – CYFARFOD YMGYNGHORIAD**

Rhybudd fod y Gwasanaeth Llyfrgell wedi cynnal cyfarfod ymgynghoriad ar bnawn Mercher y 26ain o Orffennaf, o ddau tan bedwar lle roedd cyfle i'r cyhoedd ac aelodau'r Cyngor Cymuned holi aelodau o staff y Gwasanaeth Llyfrgell ar y bwriad i ail siapio'r gwasanaeth i'r cyhoedd.

**54 CYF-ETHOL AELOD I'R CYNGOR CYMUNED.**

Cafwyd cais ychwanegol yn dilyn yr hysbysiad diweddar am y sedd olaf ar y Cyngor Cymuned gan Mr Peter Day. Cynigiwyd ac eilwyd cais Mr Day gan yr aelodau.

**CYNLLUNIO**

**55 CEISIADAU**

**PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-**

1. Caniatau :

30C758B	Penrallt, Benllech.
---------	---------------------

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-00 yr hwyr.